Cenn@d

MAWRTH 12 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 211

# Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) yn penodi Swyddog Polisi newydd

Mae'n bleser gan Cytûn gyhoeddi fod Iestyn Davies wedi'i benodi i olynu'r Parch. Gethin Rhys fel Swyddog Polisi Cytûn. Bydd Gethin ac Iestyn yn cydweithio hyd ddiwedd mis Ebrill, pryd y bydd Gethin yn ymddeol wedi cyfnod o ddeng mlynedd fel Swyddog Polisi a dwy flynedd cyn hynny, rhwng 2003 a 2005, yn gweithio i'r mudiad.

Yn frodor o Ferthyr Tudful ac wedi ei fagu yn rhengoedd Byddin yr Iachawdwriaeth, un o aelodau Cytûn, daw Iestyn i'r swydd yn dilyn gyrfa lwyddiannus yn gweithio i nifer o fudiadau ym meysydd iechyd, addysg a pholisi economaidd a busnes.

Dywedodd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn:

"Mae'n bleser gallu croesawu Iestyn i'r tîm. Mae'n unigolyn profiadol ym maes polisi a chysylltiadau cyhoeddus a chanddo egni heintus a gweledigaeth gyffrous ar gyfer y rôl. Dyma gyfnod chwerw felys wrth gwrs wrth i ni ffarwelio ag aelod gwerthfawr o'r tîm yn Gethin. Edrychaf ymlaen at gydweithio ag Iestyn i ddatblygu gwaith Cytûn wrth i ni bartneru â'n haelodau yn eu cenhadaeth a chydweithio â phartneriaid allanol er mwyn cyfoethogi bywyd cyhoeddus Cymru."



Wrth ymuno â Cytun, dywedodd Iestyn, "Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ymuno â'r tîm a pharhau â'r gwaith a wnaed gan Gethin i hysbysu a chynrychioli ein haelodau yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r staff ac i'r ymddiriedolwyr am eu croeso cynnes."

## Llythyr Agored: Dyfodol Diwinyddiaeth a'r Dyniaethau ym Mhrifysgolion Cymru

Rydym yn ysgrifennu ar ran Ymddiriedolwyr Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) i fynegi ein gofid dwys am y toriadau posibl i ddysgu ac ymchwil ym maes Diwinyddiaeth yn benodol a'r Dyniaethau yn gyffredinol ym mhrifysgolion Cymru.

Rydym yn ategu pryderon a fynegwyd gan ddau aelod blaenllaw o aelod eglwysi Cytûn ar raglen *Bwrw Golwg*. Dywedodd yr Athro D. Densil Morgan, 'Mae'n ymddangos na fydd yr un adran ddiwinyddol mewn prifysgol yng Nghymru o gwbl – mae'r peth yn drasiedi. Lle roedd gyda chi Gaerdydd, Llanbed a Bangor yn cynnig holl rychwant diwinyddiaeth, astudiaethau Beiblaidd, astudiaethau athrawiaethol, hanes yr Eglwys, athroniaeth crefydd – mae'r adrannau i bob pwrpas wedi cau.' Meddai Dr Rosa Hunt, 'Mae'r datblygiad hwn yn ofnadwy i bwnc academaidd Astudiaethau Crefyddol yng Nghymru. O ystyried rôl crefydd wrth lunio Cymru a'n byd amrywiol heddiw, byddai'n "drychineb" colli'r maes astudio pwysig hwn i fyfyrwyr ac academyddion fel ei gilydd.'

Credwn yn gryf fod dealltwriaeth dda am grefydd yn hynod bwysig o ran meithrin cyd-ddealltwriaeth o'r lefel leol i'r lefel fyd-eang, ac mae astudiaethau academaidd o holl feysydd diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol yn hanfodol i greu'r fath ddealltwriaeth.

Ond mae ein gofid yn lledu y tu hwnt i faes diwinyddiaeth a chrefydd, oherwydd y toriadau yn y Dyniaethau eraill. Mae dysgu'r pynciau hyn – Hanes, Hanes ac Ieithoedd yr Henfyd, Ieithoedd Modern a Cherddoriaeth – yn greiddiol i alluogi Cymru i gymryd ei lle o fewn diwylliant Ewrop. Byddai colli dysgu'r pynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn andwyo ein hunaniaeth ac yn gwanhau gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddefnyddio'r iaith ym meysydd dysg, yn ogystal â cholli'r llif angenrheidiol o fyfyrwyr cymwysedig allai ddysgu'r Dyniaethau ac Ieithoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gofynnwn, felly, i chi ailystyried gweithredu toriadau o'r fath.

Hoffem hefyd dderbyn gwybodaeth am ddau fater penodol:

1. A fydd trefn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn galluogi sicrhau dysgu ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr holl bynciau hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?
2. Beth fydd y trefniadau ar gyfer y llyfrgelloedd ac adnoddau eang sydd wedi eu casglu yn y prifysgolion? A ddiogelir y llyfrau, papurau a chreiriau, mewn modd sydd yn galluogi myfyrwyr ac ymchwilwyr y dyfodol i'w cyrchu a'u defnyddio, ac os felly ymhle a sut?

Byddem yn falch o dderbyn eich ymateb, ac os yn bosibl cwrdd â chi i drafod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

Jennifer Hurd (Parch. Ddr)
Cadeirydd

Cynan Llwyd (Dr)
Ysgrifennydd Cyffredinol

Dydd Gweddi'r Byd
Tudalen 2

Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
Tudalen 3

O Gefn Gwlad
Tudalen 8

# Dydd Gweddi'r Byd




Cynhaliwyd Dydd Gweddi'r Byd eleni ddydd Gwener, 7 Mawrth. Roedd yr oedfa wedi ei pharatoi gan ferched Cristnogol Ynysoedd Cook, a'i thema oedd: 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol'. Dyma ddetholiad o luniau o'r oedfaon a gynhaliwyd mewn nifer leoliadau gwahanol ledled Cymru. Ceir mwy o luniau a hanesion ar dudalen Facebook Dydd Gweddi'r Byd. Ni fyddwn yn cyhoeddi rhagor o luniau yn *Cenn@d*, ond yn hytrach byddant i gyd yn ymddangos ar dudalen Facebook 'Dydd Gweddi'r Byd'.



Cefnddwysarn, y Bala



Ardal Caerfyrddin



Pencae, Llanarth



Cartref Glyn Nest, Castellnewydd Emlyn



Ardal Llandysul



Ardal Clydach



Dre-fach a'r Tymbl



Wrecsam



Eglwys Unedig y Pentre a Phrion, ger Dinbych



Cynwyl Elfed



Y Garn a'r Noddfa, Bow Street



Mynydd Seion, Abergele

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



## Gwlychu!

Dwi wedi dysgu rhywbeth diddorol yn ddiweddar: ym mhob un o grefyddau mawr y byd, mae cysylltiad rhwng mynd i mewn i afon a chael profiad ysbrydol. Os oes diddordeb gyda chi, er enghraifft, yn y byd Bwdhaidd, byddwch chi'n gwybod bod y teitl 'stream-enterer' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio person sydd wedi cymryd y cam cyntaf ar y daith i'r Ymoleuo.

Ond does dim angen i ni fynd at grefyddau eraill i weld arwyddocâd mynd i mewn i afon ar y daith ysbrydol. Ar ôl y creu, efallai taw stori'r Exodus yw prif stori hanes cynnar pobl Dduw yn yr Hen Destament. Dim ond un ffordd oedd ar gael i bobl Duw ddianc rhag caethwasiaeth yn yr Aifft, a hynny oedd drwy peryglu eu bywydau a mynd i mewn i'r Iorddonen. Roedd yr hanes hwnnw mor ganolog i brofiad pobl Dduw fel bod yr Iddewon yn dal yn adrodd y stori bob Saboth o gwmpas y bwrdd hyd at heddiw. Yn ddiweddarach daeth yr Iorddonen yn symbol o'r afon rhwng bywyd yn y byd yma a bywyd tragwyddol – sef marwolaeth. Felly, yng ngeiriau Pantycelyn a chyfieithiad Dr Huw Thomas:

> A phan droediaf lan Iorddonen
> Aed 'mhryderon, aed pob braw;
> Drechwr angau, drechwr uffern,
> Clud fi'n saff i'r Ganaan draw.

Ond yn fwy nag unrhyw beth, i ni'r Cristnogion, mae meddwl am fynd i mewn i afon yn ein hatgoffa o fedydd Iesu. Ar ddechrau ei weinidogaeth gyhoeddus mae Iesu'n mynd i mewn i'r Iorddonen, yn cael ei fedyddio gan ei gefnder Ioan. Yna mae'n cael profiad ysbrydol lle mae ysbryd a llais Duw yn cadarnhau ei hunaniaeth fel mab annwyl Duw.

Fel Bedyddwyr, rydyn ni bob amser yn cofio bedydd Iesu fel patrwm i ni ei efelychu. Ond meddyliwn am funud am beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn mynd i mewn i afon.[1] Mae'r un peth yn digwydd bob amser: maen nhw'n gwlychu! 'Sdim ots ydyn nhw'n mynd i mewn yn araf bach achos bod y dŵr mor oer neu'n neidio i mewn ar brynhawn crasboeth ym mis Awst. Does dim gwahaniaeth ydyn nhw wedi mynd i mewn yn hollol fwriadol, neu ydyn nhw wedi cwympo i mewn ar ddamwain, neu hyd yn oed os bydd rhywun arall wedi'u gwthio i mewn! 'Sdim ots os ydyn nhw wedi mynd i mewn ganwaith o'r blaen, neu'n mynd i mewn am y tro cyntaf. Mae'r un peth yn digwydd i bawb sy'n mynd i mewn i afon – gwlychu!

Mae'r seicolegydd a'r awdur Cristnogol James Finley yn cymharu'r gwlychu yma â'r profiad o gyfarfod â Duw. Mae profiad felly'n gallu digwydd mewn eglwys ar y Sul neu yn ystod amser gweddi. Ond mae hefyd yn gallu bod yn hollol annisgwyl. Dwi'n nabod dyn yn ei dridegau aeth i weld y ffilm *Manchester by the Sea* yn y sinema. Does dim byd crefyddol am y ffilm yna, a dydy'r dyn ddim yn Gristion, ond dywedodd wrthyf iddo fe deimlo heddwch annaturiol ar ddiwedd y ffilm. Tra oedd pawb arall yn gadael y sinema, arhosodd ef yn ei sedd yn llawn llawenydd a heddwch, heb fedru symud nac esbonio beth oedd wedi digwydd. Weithiau mae pobl yn cael profiad tebyg wrth wylio machlud haul neu wrando ar ddarn o gerddoriaeth neu weld babi bach.

Rydyn ni'n gallu meddwl am y profiadau hyn o bresenoldeb Duw fel profiadau o wlychu. Dydyn nhw ddim o dan ein rheolaeth ni: mae Duw yn hollol rydd i weithredu neu beidio â gweithredu. Ond hefyd mae Duw *eisiau* i ni brofi ei gariad. Beth yw rôl yr eglwys yn y ddealltwriaeth hon o'r daith ysbrydol?

Yn gyntaf, mae'r eglwys yn gyfrifol am greu man lle mae'n bosibl i bobl gwrdd â Duw – hynny yw, mae'r eglwys yn gyfrifol am arwain pobl at yr afon. Gallai hyn olygu dysgu pobl i weddïo neu ddarllen y Beibl, creu man lle mae pobl yn teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau ysbrydol, neu drefnu oedfaon lle mae pobl yn gallu addoli Duw a dysgu amdano.

Yn ail, er taw Duw sy'n gyfrifol am y profiad ysbrydol, ac nad oes modd i ni ei orfodi, unwaith y bydd unigolyn wedi ei 'wlychu' (hynny yw, wedi cael profiad ysbrydol), mae'r eglwys yn gyfrifol am ei helpu i benderfynu sut i ymateb. I rai, byddai bedydd yn ateb naturiol i'r profiad yma – gwlychu allanol fel arwydd o'r gwlychu ysbrydol mewnol sydd wedi digwydd yn barod! Ond i eraill, bydd ymatebion gwahanol yn addas. Er enghraifft, rydyn ni'n gobeithio y bydd person sydd wedi cael ei fedyddio neu wedi'i fedyddio'n barod yn parhau i gael profiadau go iawn o gariad a phresenoldeb Duw. Efallai yr hoffai'r person yna ymateb gan ymroi'n ddyfnach mewn rhyw ffordd i Dduw. Neu, efallai y byddai person sy'n cael profiad o 'wlychu' ysbrydol am y tro cyntaf yn cael ei (h)annog i fynychu dosbarth Beiblaidd neu ddod i'r capel yn rheolaidd i ddysgu mwy am y Duw sydd wedi estyn allan ato neu ati mewn cariad.

Mantais y ffordd hon o ddeall bedydd yw'r sylweddoliad nad ydy ein taith ysbrydol yn dod i ben unwaith y byddwn ni'n cael ein bedyddio. Dim ond un profiad o wlychu ar y ffordd ysbrydol yw'r bedydd, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd sawl un arall cyn y bedydd ac yn dilyn hynny. Mae'r trosiad o 'wlychu' yn gallu ein helpu hefyd i ddeall beth yw tröedigaeth: mae Duw ar waith ym mywyd pawb, ond mae lan i bob un ohonom ymateb. Rydyn ni'n gallu arwain pobl at yr afon, maen nhw'n gallu mynd i mewn iddi neu hyd yn oed cwympo i mewn ar ddamwain – ond ar ôl hynny bydd eu hymateb nhw lan iddyn nhw!

O ran ein gweledigaeth yn y Tabernacl, Caerdydd, rydw i'n gweld ein digwyddiadau cymdeithasol, cerddorol a chymunedol fel modd o arwain pobl at afon cariad Duw. Rydw i'n gweld ein hoedfaon a'n hastudiaethau Beiblaidd, ein hysgol Sul a Thabwyl, ein gwaith gyda phobl ifanc fel cyfleoedd i bobl fynd i mewn i'r afon dro ar ôl tro. Wedi'r cwbl, Bedyddwyr ydyn ni – felly dylen ni fod yn wlyb!

1 Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar ymchwil ar y cyd â'r Parchg Ddr Ed Kaneen o Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd, am ffyrdd cyfoes a newydd o ddeall aelodaeth a bedyddio.

# Gwahoddiad i lansiad cyfrol newydd *Hoff Adnodau'r Cymry*

Ddydd Llun, 24 Mawrth, bydd cyfrol newydd yn cael ei lansio sy'n rhannu hoff adnodau 60 o Gymry adnabyddus, a'u rhesymau dros ddewis yr adnodau hynny. Casglwyd y cyfraniadau gan Beti-Wyn James, a diolch iddi am ei gwaith yn golygu'r gyfrol.


Meddai'r golygydd: 'Braint o'r mwyaf oedd derbyn y gwahoddiad i gasglu cyfraniadau ar gyfer y gyfrol hon. Cefais gryn flas ar gasglu cyfraniadau gwerthfawr ar gyfer cyfrol *Yr Alwad* ychydig flynyddoedd yn ôl. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob cyfrannwr sydd wedi ymateb i'm gwahoddiad ac wedi rhoi amser nid yn unig i ddewis adnod ond hefyd i weu profiadau personol – o'r dwys i'r digri – i mewn i'r ysgrifau hyn. Y canlyniad yw bod gennym yma glytwaith diddorol a gwerthfawr o brofiadau yn seiliedig ar adnodau o'r Beibl.

'Cyfeiria sawl cyfrannwr at yr arfer o "ddweud adnod" yn yr oedfa pan oeddent yn blant. Roedd hi'n ben tost i ambell riant ar nos Sadwrn wrth geisio cael eu plentyn i gofio'r adnod, ac yn fwy o ben tost i ambell blentyn i'w chofio wedi cyrraedd y sedd fawr y bore canlynol! Ond rwy'n siŵr y gwnewch gytuno bod yr adnodau a ddysgwyd gennym pan oeddem yn blant wedi aros yn y cof, a phrofiadau bywyd dan arweiniad Duw wedi goleuo ein meddwl a'n calon i ddeall yr adnodau yn well wrth i ni dyfu'n hŷn. Diolch am gyfoeth Gair Duw ac am ei fod yn dal i'n cyffroi a'n hysbrydoli.'

Isod ceir dewis Beti-Wyn ei hun:

'Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi.' (Luc 24:29)

Un o blant Cwm Tawe yw Beti-Wyn. Bu'n gweinidogaethu yn y Tabernacl, y Barri, am rai blynyddoedd cyn symud i'r gorllewin, a derbyn galwad i fod yn weinidog ar ofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin. Eleni, ffurfiwyd gofalaeth newydd o dan ei gweinidogaeth, sef Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin. Mae'n Gyn-lywydd Undeb yr Annibynwyr, yn awdur ac yn gyfrannwr cyson i raglenni radio a theledu. Enillodd radd Meistr o Goleg y Brifysgol Caerdydd a Choleg Bedyddwyr Cymru am ei hymchwil i effaith Covid 19 ar fywyd yr eglwysi. Mae'n darlledu oedfa ddigidol bob bore Sul ers y cyfnod clo. Hi yw Arwyddfardd presennol Gorsedd Cymru. Mae'n fam i Elin a Sara.




**Ei hoff adnod**

Mae'r hanes am y ddau yn cerdded y ffordd o Jerwsalem i Emaus, i mi, gyda'r prydferthaf o storïau yn y Testament Newydd. Daw'r Crist Atgyfodedig at y ddau a oedd yn cerdded y ffordd, a hwythau heb ei 'nabod. Ond wrth agosáu at y pentref, meddent wrth Iesu, gan bwyso arno, 'Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi.' Canlyniad yr 'aros' gyda nhw oedd iddynt ddod i 'nabod Iesu dros bryd o fwyd, wrth iddo dorri bara. Na, nid corff mewn bedd oedd Iesu, ond Gwaredwr Atgyfodedig a buddugoliaethus.

Y mae rhai yn honni eu bod wedi cerdded ffordd Damascus, ac wedi dod i adnabyddiaeth o Iesu mewn moment ddramatig fel Saul gynt. Ond cofiwn fod modd cerdded ffordd Emaus yn ogystal â ffordd Damascus. Ffordd Emaus yw'r ffordd a gerddais i, ac rwy'n gobeithio fy mod yn dal i'w cherdded heddiw wrth geisio byw yn agos at Iesu a dod i adnabyddiaeth ddyfnach ohono o ddydd i ddydd.

Oherwydd fy hoffter o'r stori hon, rwyf wedi cael fy nenu at eraill sy'n rhannu'r un hoffter â mi am yr hanes. Mae'r stori hon wedi ysbrydoli nid yn unig pregethwyr ond hefyd beirdd, cerddorion ac artistiaid. Ymhlith yr artistiaid mae Rembrandt a beintiodd lun o Iesu yn torri'r bara yn Emaus.

Bu'r sefyllfa echrydus yn Wcráin yn ofid mawr i bawb dros y ddwy flynedd diwethaf. Rydym wedi bod yn ymateb i'r sefyllfa druenus honno mewn gweddi, ac mewn ffyrdd ymarferol hefyd yn ôl ein gallu. Wrth fodio drwy dudalennau'r we un diwrnod, fe sylweddolais fod un ffordd arall bosib o gefnogi pobl Wcráin, a hynny oedd drwy brynu eu gwaith celf. Llawenydd i mi oedd dod ar draws gwaith yr artist Ivanka Demchuk o Wcráin. Llwyddais i brynu darn o'i gwaith, sef darlun yn dehongli yn ei ffordd ei hun stori'r ddau yn cerdded i Emaus ac yn cwrdd â Iesu. Mae iddo le parchus ar wal ein 'stafell fwyta. Mae'r darlun yn dweud dau beth wrthyf: yn gyntaf, bod angen cofio'n gyson yn ein gweddïau am Wcráin, Gaza a mannau eraill lle mae rhyfel ofnadwy ac yn ail, i gofio mai Crist byw a buddugoliaethus yw'n Crist ni.

Rheswm arall am y dewis o adnod yw oherwydd bod gen i glip fideo ar fy nghyfrifiadur o'n merched ni, Elin a Sara, yn canu emyn yn rhan o gôr merched Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar lan bedd Hedd Wyn. Mae'r datganiad digyfeiliant o'r emyn yn wefreiddiol ac mae'n dal i yrru ias i lawr fy nghefn bob tro y byddaf yn gwrando arno. Yr emyn? 'O aros gyda mi, y mae'n hwyrhau', cyfiethiad Lewis Edwards o'r emyn godidog 'Abide with me'.

Gwahodd Iesu i'w cartref a wnaeth y disgyblion wedi cyrraedd Emaus gan ei bod yn nosi. Gwahodd Iesu i gartref ein calonnau a wna'r Cristion, yn y sicrwydd y bydd ef yn oleuni i ni pan ddaw profiadau o dywyllwch i'n hamgylchynu. Y daith o Jerwsalem i Emaus. Ond nid ffordd i'w thrafod yw hon, ond ffordd i'w cherdded.

# 'I'r Drindod heb wahân
## Rhown fawl ar gân i gyd' – Credo Nicea a Chymru 2025 (rhan 1)

Credaf yn un Duw,
y Tad Hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear,
a phob peth gweledig ac anweledig.
Ac yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig-genedledig Fab Duw.

Mae'n debyg y bydd y geiriau hyn, o ddechrau Credo Nicea, yn gyfarwydd i ni. Ond wrth i ni nodi 1,700 o flynyddoedd ers ei lunio, ydy e'n parhau i fod yn berthnasol i ni yng Nghymru heddiw? Dyna oedd testun Dr D. Densil Morgan yn oedfa flynyddol Ilston yn ddiweddar: "I'r Drindod heb wahân / Rhown fawl ar gân i gyd': Credo Nicea a Chymru 2025".

Yn anaml iawn y bydd Cristnogion – hyd yn oed y Cristnogion mwyaf ymroddgar a brwd – yn meddwl ryw lawer am athrawiaeth y Drindod: bod y Duw Cristnogol (eich Duw chi a minnau), yn ôl y fformiwla, yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân. Ond mae unrhyw sôn am ddiwinyddiaeth yn ddigon i godi braw ar y rhan fwyaf ohonom. Rŷm naill ai'n credu ei fod yn rhy anodd, yn rhy gymhleth neu'n rhy ddryslyd, neu ynteu ei fod yn amherthnasol i'n bywydau bob dydd.

Onid peth syml yw Cristnogaeth yn y bôn? Oni allai plentyn ei ddeall? Dyna i chi'r Tad nefol sydd wedi ein creu ni ac sydd wedi ein caru ni. Dyna Iesu Grist, ei unig-anedig Fab, y buom yn dathlu ei ddyfodiad eto'r Nadolig hwn, wedi dod i'r byd er mwyn mynegi'r cariad hwnnw a'i fynegi hyd angau. A dyna'r Ysbryd Glân, ysbryd y Pentecost, sydd wedi gwneud y Crist atgyfodedig (sydd bellach yng nghwmni'r Tad yn y nefoedd) yn realiti profiadol yn ein bywydau ni. Wel, ie! Dyna yn ei hanfod yw athrawiaeth y Drindod.

Mae'n hollol resymegol, ac yn wir does dim angen cwrs prifysgol ar neb i fedru ei deall. Dyw e'n ddim byd i'w wneud â mathemateg – sut yn y byd y gall Un fod yn Dri, a Thri fod yn Un; a dyw hi'n ddim byd i'w wneud â rhyw athroniaeth gymhleth ychwaith. Mae'n ymwneud, yn hytrach, â phrofiad yr eglwys ar hyd y canrifoedd: mai Un Duw sydd, a ddaeth atom yn gyflawn ac yn derfynol yn Iesu Grist ei Fab. Ymhellach, fod y Mab hwnnw yn fwy na phroffwyd a dyn da – ydi, mae e'n broffwyd ac yn ddyn da, ond mae'n fwy na hynny hefyd. Pan ddowch wyneb yn wyneb ag Iesu, rydych chi'n dod wyneb yn wyneb â Duw: 'Myfi a'r Tad un ydym; yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad'. A thrwy'r Ysbryd daw'r cwbl yn realiti cyfoes ym mhrofiad yr eglwys o genhedlaeth i genhedlaeth ac ar hyd y canrifoedd. Nid rhywbeth i ymddrysu uwch ei ben neu ddadlau yn ei gylch mohono, ond rhywbeth i orfoleddu ynddo, yn destun mawl ac addoliad. Yng ngeiriau Eos Gwynfa:

I'r Drindod heb wahân
Rhown fawl ar gân i gyd;
Boed Haleliwia ym mhob man
Drwy bedwar ban y byd.

Wedi dweud hynny, fe gymerodd amser i'r eglwys ffurfioli ei chredo a dyfeisio'r hyn rydym ni'n ei alw yn 'Athrawiaeth y Drindod'. Does dim athrawiaeth y drindod fel y cyfryw yn y Testament Newydd, er bod deunydd crai'r athrawiaeth i'w weld yno yn blaen, bron ar bob tudalen. Yn nyddiau ei gnawd, roedd hi'n gwbl amlwg i'r disgyblion (yn ôl y cofnod yn yr efengylau cyfolwg, Mathew, Marc a Luc) fod y berthynas rhwng Iesu a'i Dad nefol yn un hynod, yn wir yn unigryw. Nid yn unig yr oedd yn ufudd i'r Tad ym mhob dim, ond roedd yn gwneud y math o bethau y byddai Duw ei hun yn unig yn ei wneud.

Byddai'n gweddïo ar y Tad yn ddi-baid, ond ni chlywodd neb mohono'n gweddïo am faddeuant pechodau. Nid gofyn am faddeuant a fyddai Iesu ond ei gynnig i bobl eraill, a dim ond Duw oedd â'r hawl i wneud hynny. Dro ar ôl tro ar ôl tro mae'n dweud wrth yr anghenus, y tlawd, y rhai a feichiwyd gan eu hamgylchiadau: 'Maddeuwyd i ti dy bechodau'. Does dim rhyfedd fod y Phariseaid a'r ysgrifenyddion yn ei gyhuddo o gablu. Ac oni chyffesodd Thomas maes o law: 'Fy Arglwydd a'm Duw' (Ioan 20:28). Dim ond un Duw oedd, sef y creawdwr, y Tad nefol, ond rywsut dyma ddyn, y rabbi crwydrol o Nasareth, mab Joseff y saer, yn ymagweddu megis Duw. 'Yn wir', meddai'r canwriad ar ddiwedd Efengyl Mathew, gan fynegi ffydd yr Eglwys ar hyd y canrifoedd: 'Onid Mab Duw oedd hwn?' (27:58)

Ond beth am yr Ysbryd Glân? Nid yr efengylau cyfolwg fel y cyfryw ond Efengyl Ioan sy'n darlunio'r berthynas rhwng Iesu, ei Dad nefol, a'r Ysbryd hwnnw a fu oddi ar y dechrau ar waith oddi mewn i'r greadigaeth. Wrth gyfarwyddo'i ddisgyblion yn yr oruwchystafell ar ddechrau'r Wythnos Fawr, mae Iesu'r Mab wrth sôn am ei berthynas â'r Tad sanctaidd, yn cyfeirio hefyd at swyddogaeth a gweinidogaeth yr Ysbryd:

> Y mae gennyf lawer eto i'w ddweud wrthych, ond ni allwch ddal y baich ar hyn o bryd. Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd. Oherwydd nid ohono'i hun y bydd yn llefaru; ond yr hyn a glyw y bydd yn ei lefaru, a'r hyn sy'n dod y bydd yn ei fynegi i chwi. Bydd ef yn fy ngogoneddu i, oherwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi. Y mae pob peth sydd gan y Tad yn eiddo i mi. (Ioan 16:12–15)

Nid dyna yw athrawiaeth y Drindod, ond dyna'r deunydd crai y lluniwyd athrawiaeth y drindod ohono. Yr un Duw, sydd yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân. Ond beth ddigwyddodd i Iesu ar ddiwedd yr Wythnos Fawr? Cafodd ei groeshoelio, ond:

Ni allodd angau du
  ddal Iesu'n gaeth
ddim hwy na'r trydydd dydd –
  yn rhydd y daeth.

Dychwelodd at ei ddisgyblion, ffarweliodd â nhw a rhoddodd iddynt y Comisiwn Mawr: 'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân … Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.' (Mathew 28:18–20)

A'r peth nesaf sy'n digwydd yw tywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost, pregeth aruthrol Pedr, sef y bregeth Gristnogol gyntaf, ac Iesu yw'r testun: 'Gwybydded holl dŷ Israel yn sicr fod Duw wedi gwneud yn Arglwydd ac yn Feseia, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi.' Ac yna'r alwad i edifarhau: 'Pan glywsant hyn, fe'u dwysbigwyd yn eu calon, a dywedasant wrth Pedr a'r apostolion eraill, "Beth a wnawn ni, gyfeillion?" … "Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant eich pechodau, ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd." (Actau 2:36–8)

Fel pobl yr Hen Destament roedd Cristnogion yr Eglwys Fore, yn Iddewon ac yn genedl-ddynion, yn credu mai un Duw oedd, y creawdwr a'r achubydd. Ond roedd hi fel petai'r un Duw hwnnw wedi'i fynegi ei hun yn derfynol ac yn gyflawn yn yr Arglwydd Iesu: 'Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu' (Mathew 3:17). Bellach, roedd yr un Duw hwnnw a ymgnawdolwyd yng Nghrist yn realiti parhaol yn eu profiad drwy bresenoldeb yr Ysbryd. O'r deunydd hwn, ac ar sail y profiad hwn, y lluniwyd yr athrawiaeth. O droi at lythyrau Paul a'r apostolion eraill fe welwch y broses hon yn ymffurfio: Un Duw, sydd bellach yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân, ac nid rhyw bŵer amhersonol mo'r Ysbryd ond Person yn ei hawl ac yn ei hanfod ei hun.

*(i'w barhau)*

*D. Densil Morgan*
*Llanbedr Pont Steffan*

# Undod Cristnogol mewn Byd sy'n Chwalu

WYTHNOS 2

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Yr Eglwys fel iachäwr clwyfedig**

**Darlleniad**
Ioan 20: 24–9

**Myfyrdod**

Eglwys oedd yn cael ei herlid oedd yr Eglwys a ddaeth ynghyd yn Nicea, ac roedd creithiau corfforol erledigaeth i'w gweld ar rai oedd yn bresennol yno. Yn ddi-os, roedd y lloches a gynigiwyd gan yr Ymerawdwr yn rhyddhad mawr ac yn cael ei chofleidio fel cefnogaeth i genhadaeth yr Eglwys i ledaenu'r Efengyl. Yn y canrifoedd yn dilyn Cyngor Nicea byddai'r Eglwys honno a gawsai ei herlid yn gwneud camgymeriadau difrifol. Byddai Cristnogion yn erlid Cristnogion eraill, yn ogystal â phobl o hunaniaeth a chrefyddau eraill. Ar adegau, byddai'r Eglwys yn cefnogi a hyd yn oed yn cymryd rhan weithredol yn y gamdriniaeth a wneid gan ymerodraethau a phwerau gwladychol, mewn caethwasiaeth a lladd a dulliau eraill o gam-drin hawliau dynol ar raddfa eang.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r lleisiau sy'n herio'r rhain a mathau eraill o gamdriniaeth a gyflawnir yn erbyn plant a phobl fregus mewn cyd-destunau eglwysig wedi mynd yn uwch ac yn gryfach. Mae awdurdod moesol yr Eglwys i siarad yn y man cyhoeddus wedi cael ei gwestiynu ac mae hyder llawer o Gristnogion wrth siarad am eu ffydd a'i rhannu y tu allan i'r Eglwys wedi ei ysgwyd.

Wrth iddi fyfyrio ar ei gorffennol, y presennol a'r dyfodol, yng nghyd-destun cofio Nicea 1700 o flynyddoedd yn ôl, mae gan yr Eglwys heddiw gyfle i ailadeiladu hyder ac adfer hygrededd drwy ddangos ei chlwyfau, gan gydnabod, yn wahanol i glwyfau Crist, fod llawer o'r clwyfau hyn wedi cael eu hachosi ganddi hi ei hun.

Os byddwn yn pendroni dros y penodau tywyll hyn yn ein gorffennol, mae rhai'n ofni y byddant yn taflu cysgod dros lawenydd yr Efengyl, gan ein cadw'n sownd mewn poen ac anobaith. Yn ein profiad eciwmenaidd, mae llawer ohonom wedi cael cyfle i archwilio'r ffyrdd hynny yr ydym ni, fel Cristnogion o wahanol enwadau, cefndiroedd a thraddodiadau, wedi brifo ein gilydd. Mewn nifer o achosion mae'r ddeialog hon wedi bod yn drawsnewidiol, gan arwain at gymod, iachâd ac adnewyddu perthynas. Mae yna wybodaeth yma y gellir ei rhannu ag eraill i'n hysbrydoli a'n hannog i fynd yn ddyfnach i'r gwaith hwn o hunanfyfyrio beirniadol.

Beth allwn ni ei ddysgu o barodrwydd Crist yn narlleniad heddiw o'r Ysgrythur i ddangos ei glwyfau, gyda gostyngeiddrwydd a dealltwriaeth, ond gan alw hefyd ar ei ddilynwyr i gael ffydd?

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**

- Ydych chi'n meddwl y gallai'r Eglwys fod yn fwy parod i ddangos ei gwendid wrth roi arweiniad? Sut y gellid amlygu hyn?
- A yw siarad am y ffyrdd y mae Cristnogion o wahanol enwadau wedi brifo ei gilydd wedi bod yn rhan o'ch profiad eciwmenaidd chi? Os felly, a yw'r sgyrsiau hyn yn ddefnyddiol? Os nad ydyw, ydych chi'n teimlo bod y ddeialog hon yn angenrheidiol yn eich cyd-destun chi?
- Pa fath o heriau ydych chi'n dod ar eu traws wrth siarad am eich ffydd y tu allan i'r Eglwys?




**Gweithredu**

- Fel rhan o'ch paratoadau ar gyfer y Grawys, allech chi dreulio peth amser yn myfyrio mewn gweddi ar y clwyfau sydd angen eu hiacháu yn yr Eglwys?
- Rhestrwch rai o'r bobl sy'n dod i'r cof wrth feddwl am y rhai sydd wedi cael eu niweidio neu eu brifo gan yr Eglwys. Pa fath o negeseuon neu weithredoedd gan yr Eglwys heddiw allai gyfrannu at wella'u clwyfau?
- Meddyliwch am brofiad lle buoch chi'n dyst i gymod. Gallai hyn fod yn rhywbeth personol neu ar lefel gymunedol. Nodwch rai o'r ffactorau a wnaeth gymodi yn bosibl yn yr achos hwn. Trafodwch sut y gellid cymhwyso hyn i heriau cymodi sy'n wynebu'r Eglwys heddiw.

**Gweddi**
Dduw trugarog,
Edrych yn dosturiol ar dy Eglwys glwyfedig.
Rho i ni'r dewrder i ymddiheuro
am y camweddau a gyflawnwyd, a
ganiatawyd neu a anwybyddwyd gan yr Eglwys.
Helpa ni i brofi rhyddid maddeuant,
ac i greu mannau lle gallwn gysylltu
â phobl a anafwyd gan yr Eglwys.
Helpa ni i osod esiampl well i'r
gymdeithas ehangach
gyda ffydd, gonestrwydd ac
atebolrwydd
gan wybod efallai y bydd angen i bobl
ofyn inni
ddangos ein clwyfau
er mwyn iddynt gredu yn dy addewid
o gymodi, adnewyddu ac adfer
perthynas.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Cyngerdd arbennig i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed





Cafwyd cyngerdd arbennig yn ddiweddar i ddathlu dydd Gŵyl Dewi yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed. Diolch i'r Esgob Mary a'r Deon Jason Bray o Eglwys Gadeiriol Llandaf am gynnal y digwyddiad arbennig hwn, ac i Fand Dirwest Tongwynlais a Chôr Caerdydd am eu perfformiadau gwych. Diolch hefyd i ddisgyblion Ysgol Gynradd Dinas Llandaf am rannu rhai myfyrdodau meddylgar ar sut y gwnaeth Duw Gymru, ac i Rowan Williams, Angela Graham a Siôn Aled Owen am eu barddoniaeth ar y thema 'Gobaith'. Mae'n wych cael rhannu bod y cyngerdd wedi codi dros £1.600 at waith Cymorth Cristnogol, felly diolch i bawb sydd wedi ein cefnogi mor hael.

# Oedfaon Gŵyl Ddewi yn Lerpwl

Cynhaliwyd oedfa Gŵyl Ddewi yn y Gadeirlan Anglicanaidd, Lerpwl, ddydd Gwener, 28 Chwefror. Mae'r oedfa arbennig hon i ddathlu gŵyl ein nawddsant yn denu pobl o'r Glannau a Chymru ac roedd tua 80 o bobl yn y gynulleidfa. Lluniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Robert Parry a'r Parch. Athro Sally Harper, sy'n gweithio yn y gadeirlan ac Esgobaeth Llanelwy. Cymerwyd rhan hefyd gan y Tra-barchedig Ddr Sue Jones, Côr y Gadeirlan, Roderick Owen a Kath Norton. Braf oedd gweld y Parch. Ddr D. Ben Rees yn offrymu'r weddi drosom ni i gyd yn ystod y gwasanaeth.

Y pregethwr gwadd oedd y Gwir Barchedig Dr Barry Morgan, Cyn-archesgob Cymru. Roedd ei sylwadau'n seiliedig ar Lyfr Deuteronomium 10: 12–14, 17–20. Cyfeiriodd at ddydd Gŵyl Dewi fel y diwrnod pan fyddwn yn dathlu ein gwlad, ein diwylliant a'n hiaith, ond gwae ni rhag datblygu'n genedlaetholwyr cul, senoffobig. Neges Duw yw: 'Oherwydd yr Arglwydd eich Duw yw Duw y duwiau ac Arglwydd yr arglwyddi, Duw mawr, cadarn ac ofnadwy; nid yw'n dangos ffafriaeth ac nac yn cymryd llwgrwobr ... Yr ydych chwithau i garu'r dieithryn'. Diolch am ei bregeth amserol.



Y rhai a gymerodd ran yn yr oedfa



Plant Bethel gyda'r Parch. Robert Parry

Ddydd Sul, 2 Mawrth, cafwyd gwasanaeth ym Methel i ddathlu gŵyl Ddewi. Roedd y rhan gyntaf yn canolbwyntio ar y plant, oedd wedi'u gwisgo'n hyfryd mewn gwisg draddodiadol Gymreig neu grys rygbi Cymru. Wedi hynny, pregethodd ein Gweinidog ar y cyfarfod rhwng Cornelius a Phedr (Actau 10) a'r sylweddoliad nad yw Duw yn ffafrio neb ond y rhai sy'n ei addoli. Ar ddiwedd y gwasanaeth, gweinyddwyd y Cymun Bendigaid.

# O Gefn Gwlad

## Pa fath o Gristion?

Teitl yw hwn ddaeth i fod oherwydd sylw ddarllenais i gan Richard Dawkins fod yna dri math o Gristion. Ie, Richard Dawkins o bawb, ac rwy'n dweud 'o bawb' am mai ef, mae'n debyg, yw'r anffyddiwr enwocaf sy'n fyw.

Yr hyn dd'wedodd o yn rhywle yw fod yna dri math o Gristion: Cristion gwleidyddol, Cristion diwylliannol a Christion sy'n grediniwr go iawn. Aeth ymlaen i gydnabod y gallai person fod yn gyfuniad o'r tri, a bod llawer felly. Ond fe wnaeth imi feddwl, tybed beth yw nodweddion y tri math, a thybed yn wir oes yna bedwerydd math, a beth yw nodweddion hwnnw?

**Cristion gwleidyddol**
Does dim dwywaith nad yw cyfundrefnau a chenhedloedd byd wedi defnyddio crefydd, boed Gristnogaeth neu unrhyw grefydd arall, i'w pwrpas eu hunain ac i hynny ar hyd y cenedlaethau achosi rhyfeloedd a dioddef lawer. A gellir defnyddio crefydd gan unigolion pwerus i hybu eu hachos eu hunain. Does ond rhaid enwi Donald Trump i enghreifftio'r drwg effaith y gall hynny ei greu.

Ond beth yw ystyr bod yn Gristion gwleidyddol i bobl gyffredin, i ni o fewn ein heglwysi? A gallwn deimlo beth yn fwy cyfforddus wrth drafod hyn. Ar ei waethaf gall fod ag effaith anffodus: gwneud inni deimlo, am ein bod yn fynychwyr addoldai, ein bod yn well na phawb arall, bod mynychu capel neu eglwys ar y Sul yn ddigon, ac nad oes angen gwneud dim arall.

Ar ei orau gall liwio ein golwg ar y byd a pheri inni weld yr annhegwch dybryd sydd ynddo, ein cymell i gefnogi cyfundrefnau dyngarol o bob math sy'n gweithio i geisio 'codi'r gwan i fyny'. Os ydym yn ymwybodol o'r anghyfiawnder sydd yn y byd ac am wneud rhywbeth yn ei gylch, yna yr ydym yn Gristnogion gwleidyddol. Fe'n galwyd, medde'r emyn: 'i wasanaethu'n hoes'.

**Cristion diwylliannol**
'Rwy'n canu yr hen emynau,' medd ai llinell rhyw gân – Huw Chiswell, falle? Ac oes, y mae llawer ohonom wrth ein boddau efo *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, ac yn cwyno bod yn y rhaglen erbyn hyn ormod o siarad. Ie, canu emynau, a mwynhau gweithiau ein prif emynwyr a'n cyfansoddwyr, gwrando ar weithiau cerddorol crefyddol rhai megis Bach a Handel, neu berfformio'r gweithiau hyn, cynnal cyfarfodydd amrywiol yn ein cymdeithas ddiwylliannol, llawer ohonyn nhw, yn arfer bod beth bynnag, dan nawdd ein heglwysi. Canu plygain bob Dolig. A gwrando ar bregeth a saernïwyd yn ofalus a'i chyflwyno mewn iaith dda. Gall hynny hyd yn oed fod yn bleser diwylliannol. A dim mwy!

Ydyn, maen nhw i gyd yn agweddau ar Gristnogaeth ddiwylliannol, a llawer ohonom yn ei mwynhau. A pham lai. Mae'n agwedd bwysig ar ein crefydd, ac yr ydym yn ei cholli yn gyflym. Hyd yn oed o'r Eisteddfod Genedlaethol: gwasanaeth crefyddol Llanrwst 2019 yn y dre, nid ar y maes; gwasanaeth 2024 ym Mhontypridd, ar y maes mae'n wir, ond am naw o'r gloch y bore! A dim ond llond dwrn yn cymryd rhan ac yn y gynulleidfa. Dim sôn erbyn hyn am gyflwyno gweithiau cerddorol mawr – oratorio neu *requiem* mewn cyngerdd, a'r Gymanfa Ganu nid yn ddwyawr ond yn awr a hanner yn unig bellach, gyda chyflwyno arweinydd Cymru a'r Byd yn rhan ohoni. Un emyn yn llai yn seremoni bore Llun yr Orsedd – rhywbeth gychwynnwyd wrth gyhoeddi Eisteddfod Tregaron er mwyn rhoi amser i Ail Symudiad gymryd rhan. Ond dim ond dau funud a hanner fyddai emyn yn ei gymryd! Beth yw hyn oll ond erydu bwriadol ar Gristnogaeth ddiwylliannol? Gwyliwn!

**Cristion ymarferol**
O ddefnyddio'r gair Cristion yn ei ystyr fwyaf llac, dyma'r ychwanegiad at dri Richard Hawkins: y rhai hynny sy'n barod i wneud unrhyw beth dros yr achos, ond hynny'n aml heb fod yn mynychu addoliad ar y Sul. Gwn am ambell drysorydd selog nad yw'n gapelwr o ran mynychu, a sawl un felly sy'n barod i dacluso o gwmpas y capel, rhoi paen newydd mewn ffenest neu ailosod llechen ar do, gosod a chlirio'r byrddau ar achlysur sosial neu swper cynhaeaf efallai, gofalu am y fynwent. Mi wyddoch amdanynt, a chânt eu crybwyll yn Llyfr yr Actau fel rhai sy'n gweini wrth fyrddau.

**Cristion sy'n grediniwr**
Dyma drydydd math Hawkins. A dyma'r daten boeth. Sut un yw hwn? Un sy'n credu iddo gael ei achub? Un sy'n credu na all wneud dim yn ei haeddiant ei hun? Un sy'n credu yn y pechod gwreiddiol? Un sy'n credu yn yr enedigaeth wyrthiol? Un sy'n credu i Grist farw drosto? Un sy'n credu i Grist atgyfodi'n gorfforol? Un sy'n credu yn yr ail ddyfodiad?

Y mae'r cwestiynau hyn yn rhai y byddwn yn eu hystyried yn ein Cylch Trafod, ac un cwestiwn arall – un y gall rhywun drwy *Cenn@d* ei ateb, efallai. O'r pethau a nodais uchod, pa rai sy'n gwbwl hanfodol i ni eu harddel cyn y gallwn alw ein hunain yn Gristnogion sy'n gredinwyr, neu a oes rhaid bod yn grediniwr o gwbwl cyn cael eich galw'n Gristion? Un ystyr i'r gair, yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru* yw: 'un byw, enaid byw, un gostynedig, trugarog'! Ac oni all rhai di-gred fod felly?

*Elfyn Pritchard*

S4C
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 16 Mawrth, am 6.45yh – Dur a Môr**
Nia Roberts fydd yn edrych ymlaen at Brifwyl yr Urdd 2025, yng nghwmni'r gof Angharad Pearce Jones a'r cerddor D Huw Rees. Daw'r emynau o Eglwys Dewi Sant, Castell-nedd. A chawn berfformiad gan Gôr Unedig Ysgolion Tawe Nedd ac Afan.

BBC radio cymru
***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 16 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau â chysylltiad ag India yng nghwmni Nan Powell-Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 16 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Siwan Jones, Wrecsam

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru